# CYNLLUN GWAITH B11

Dyma enghraifft o Gynllun Gwaith. Gallech greu un eich hun, gan ddefnyddio'r llyfr gwaith a'r adnoddau ar-lein sydd wedi'u darparu, gan ychwanegu eich syniadau a'ch adnoddau eich hun. Mae'r Cynllun Gwaith hwn yn dilyn cynllun Tymor Hir ehangach (sydd ar gael yn y ffolder adnoddau Ysgolion Uwchradd) sy'n dilyn thema. Mae'n rhoi sylw i bynciau allweddol sy'n ymwneud â gamblo a chwarae gemau ar draws y pedwar Diben Addysg yng Nghymru, gan alluogi ein holl blant a phobl ifanc i fod yn: 1) Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol 2) Cyfranwyr mentrus a chreadigol 3) Dinasyddion egwyddorol a gwybodus a 4) Unigolion iach a hyderus. Mae'n gwricwlwm sbiral, gyda phynciau a themâu allweddol yn cael eu hailystyried, tra'n cynyddu'r her, yn ehangu'r cwmpas, ac yn helpu myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys drwy'r cyfnodau allweddol.

| | Gweithgareddau | Adnoddau |
|---|---|---|
| 1 | **Twyllresymeg y Gamblwr.**<br><br>Her 2.4: Tebygolrwydd a Lwc. Dywedir yn aml mai 'y Tŷ sy'n ennill bob tro' mewn gamblo. Ond beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd? Ewch ati i greu cyflwyniad digidol i'w rannu â gweddill eich grŵp.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-05, CW09-11, CW15-18, CW20-22, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 G 1<br>• B11 G1 - PowerPoint<br>• Fideo YouTube: https://m.youtube.com/watch?v=K8SkCh-n4rw<br>• Mynediad at offer TGCh/cyfrifiadur |
| 2 | **Her 5.8. Arian a Dyled**<br><br>A ddylai chwarae'r farchnad stoc gael ei ystyried yn gamblo? Sut mae'n cymharu â mathau eraill o gamblo?<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02, CW04, CW06, CW10, CW18, CW20-21, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 CG2<br>• B11 G2 - PowerPoint<br>• B11 G2 - Taflen Adnoddau<br>• B11 - Taflen ddata |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

YGAM resources

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Pam fod pobl yn gamblo:**<br><br>Her 1.7: Paratowch lawlyfr gyda gwybodaeth am sefydliadau sy'n delio ag atal niwed sy'n gysylltiedig â gemau a gamblo a sefydliadau eraill sy'n helpu'r rheini sydd eisoes yn gaeth i gamblo. Defnyddiwch luniau a ffotograffau i gyfleu eich neges.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02-04, CW08-10, CW14-18, CW20, CW22, CW25, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 CG3<br>• B11 G3 - PowerPoint<br>• B11 - Taflen ddata |
| **4** | **Her 6.4: Caethiwed ac Iechyd Meddwl:**<br><br>Diffiniwch gaethiwed. Pam y gallai person ifanc ddatblygu ymddygiad caethiwus sy'n gysylltiedig â gamblo? Sut mae'n effeithio ar wahanol agweddau ar iechyd? Ymchwiliwch i'r meysydd hyn a chanfod astudiaeth achos i gefnogi eich canfyddiadau. Ewch ati i greu Podlediad neu adnodd i rannu eich canfyddiadau.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-06, CW08-11, CW15-18, CW20, CW22, CW24-25, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 CG4<br>• B11 G4 - PowerPoint<br>• Adnodd B11 G4: Achos ac Effaith<br>• Adnodd B11 G4: Gweithgaredd Trefnu<br>• Stori Joe: https://www.timeshighereducation.com/student/blogs/gambling-addiction-i-blew-80-cent-my-student-loan-and-overdraft#survey-answer<br>• Stori Sam https://samstarsmore.wordpress.com/2019/04/18/inside-the-mind-of-a-gambling-addict/ |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

| | | |
|---|---|---|
| | | • Erthygl GamCare [https://www.gamcare.org.uk/gambling-impacts/how-can-gambling-affect-your-life/?cn-reloaded=1](https://www.gamcare.org.uk/gambling-impacts/how-can-gambling-affect-your-life/?cn-reloaded=1)<br>• Beiros a phapur<br>• Cyfrifiadur (dewisol) |
| 5 | **Y Diwydiant Gamblo - marchnata**<br><br>Her 3.3: Archwiliwch y pwnc marchnata a hysbysebu gamblo: faint sy'n ormod?<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-02, CW04-05, CW08-10, CW14-18, CW21, CW24, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 CG5<br>• B11 G5 - PowerPoint |
| 6 | **Gamblo – Cael gwared ar y stigma.**<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-02, CW04-05, CW08-10, CW14-22, CW24-25, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B11 CG5<br>• B11 G5 - PowerPoint<br>• Adnodd B11 G5<br>• Taflen Ddata |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

# B11: Taflen Ddata

## Beth yw Gamblo?

Mae Deddf Gamblo 2005 yn diffinio gamblo fel betio, chwarae gemau neu gymryd rhan mewn loteri. Mae'r diffiniad hwnnw'n gwahaniaethu rhwng gweithgareddau y mae angen eu **trwyddedu** a gweithgareddau eraill nad oes angen eu trwyddedu.

Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn categoreiddio gweithgareddau gamblo gwahanol i'r hyn rydyn ni'n ei alw'n sectorau:



- Arcedau (rhai i oedolion a rhai i deuluoedd)
- Betio (ar-lein, mewn digwyddiad neu mewn bwcis ar y stryd fawr)
- Bingo (ar-lein neu mewn neuadd bingo)
- Casino (ar-lein neu mewn casino)
- Loterïau (raffl, tombola, swîp ac ati)
- Peiriannau hapchwarae (peiriannau ffrwythau, terfynellau betio ods sefydlog ac ati)

https://www.gamblingcommission.gov.uk/for-the-public/What-is-gambling.aspx

## Gamblo a'r Farchnad Stoc

Dydy'r Marchnadoedd Stoc ddim yn cael eu hystyried yn Gamblo. Mae rhai pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y farchnad stoc a gamblo. Mae'r ddau'n caniatáu i bobl gael arian ac mae elfen o risg ynghlwm wrth y naill a'r llall. Fodd bynnag, mae'r farchnad stoc yn caniatáu i rywun fuddsoddi arian yn yr economi, yn ogystal â chaniatáu i bobl ymchwilio'n agored i'r gwahanol gwmnïau, sy'n golygu bod modd cyfrifo'r risg. Mae gamblo, ar y llaw arall, yn gogwyddo o blaid yr asiantaethau betio ac mae elfen enfawr o lwc.

Mae gamblo'n rhywbeth byrhoedlog fel arfer, ac mae marchnadoedd stoc yn gofyn am fuddsoddiad a gall bara am oes, ac fel arfer mae disgwyl cael enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad.

Ffynhonnell: https://www.investopedia.com/articles/basics/09/compare-investing-gambling.asp

## Sefydliadau allweddol

- Childline – gwasanaeth cwnsela am ddim i blant a phobl ifanc.
- Gamcare - Mae GamCare yn rhedeg BigDeal - lle i bobl ifanc ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth yn ymwneud â gamblo.
- Y Clinig Gemau Cenedlaethol yn Llundain sy'n cynnig sesiynau therapi dros Skype i chwaraewyr gemau
- GIG - Mae Clinigau Gamblo'r GIG ar agor yn Llundain, Leeds, Sunderland a Manceinion.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

- Shout - gwasanaeth testun argyfwng 24/7 sydd ar gael ar adegau pan fydd pobl yn teimlo bod angen cymorth arnyn nhw ar unwaith.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Comisiwn Hapchwarae.

**Deddf Gamblo 2005**

Cyflwynwyd Deddf Gamblo 2005 i reoleiddio gamblo, gan sicrhau ei bod yn broses agored a theg. Nod y Ddeddf oedd atal gamblo rhag cael ei ddefnyddio fel rhan o drosedd a'i nod oedd amddiffyn pobl ifanc a phobl agored i niwed. Roedd y Ddeddf hefyd yn dileu gwaharddiadau hysbysebu, sy'n golygu bod gan weithredwyr gamblo fwy o ryddid i hysbysebu eu cynnyrch, er enghraifft ar y radio, ar y teledu ac ar-lein.

**Diogelu pobl ifanc ar hyn o bryd:**

**Gamblo:**

- Dim hysbysebu ar ddillad chwaraeon pobl ifanc
- Cyfyngiadau oed, er enghraifft rhaid bod yn 18 a hŷn ar gyfer y rhan fwyaf o gamblo, 16 ar gyfer y loteri a chategori D – dim cyfyngiadau oedran (er enghraifft, peiriannau ceiniogau/uchafswm o 10c)
- Hysbysebion betio ar ôl y trothwy gwylio teuluol yn unig. Doedd dim cyfyngiad ar hysbysebu ym maes chwaraeon tan 2019 pan gyflwynwyd gwaharddiad rhwng un chwiban a'r llall. Nawr, rhaid i gemau sy'n cael eu dangos cyn y trothwy gwylio teuluol beidio â chynnwys unrhyw hysbysebion gamblo yn ystod, a 5 munud cyn ac ar ôl gemau. Dydy hyn ddim yn cynnwys radio
- Ddylai hysbysebion ddim cynnwys cyfyngiadau, er enghraifft, peidio â defnyddio cymeriadau sy'n addas i blant, pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon

**Chwarae gemau:**

- Sgoriau PEGI ar gyfer gemau
- Rhybudd ESRB: Mae'r gêm hon yn cynnwys gallu prynu mewn gêm.




©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B11G1: Tebygolrwydd a lwc: Twyllresymeg y Gamblwr.

**Her:** Dywedir yn aml mai 'y Tŷ sy'n ennill bob tro' mewn gamblo. Ond beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd? Ewch ati i greu cyflwyniad i'w rannu â gweddill eich grŵp.

## Amcanion Dysgu:

- Deall ystyr 'y Tŷ sy'n ennill bob tro'.
- Cyflwyno gwybodaeth am dwyllresymeg y gamblwr.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall ystyr 'y Tŷ sy'n ennill bob tro';
- Rydw i'n deall ystyr tuedd.
- Rydw i'n deall ystyr 'twyllresymeg y gamblwr'.
- Rydw i'n gallu cyflwyno gwybodaeth i fy nghyfoedion.

## Adnoddau:

- B11 G1 - PowerPoint
- Fideo YouTube: https://m.youtube.com/watch?v=K8SkCh-n4rw
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-05, CW09-11, CW15-18, CW20-22, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B11; hon yw'r rhan gyntaf o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

**fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: 60 eiliad o sgriblo**<br><br>Y myfyrwyr i ysgrifennu ateb i'r canlynol:<br><br>Beth yw ystyr y term 'tuedd'?<br><br>Yr athro i drafod ystyr tuedd ac yna gofyn...<br>Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'y Tŷ sy'n ennill bob tro?'<br><br>Yr athro i ddangos y diffiniad ar y sleid nesaf:<br>Y Tŷ sy'n ennill bob tro - mae'n golygu, pan fyddwch chi'n gamblo mewn casino, siop fetio, ar-lein ac ati, bod yr ods wedi'u pentyrru o blaid y sefydliad.<br><br>Yr athro i ofyn - pam gallai hyn achosi niwed mewn perthynas â gamblo? | **Gweithgaredd: Fideo**<br><br>Chwaraewch y fideo i'r myfyrwyr. Lluniwch ddiffiniad dosbarth o 'Dwyllresymeg y gamblwr'.<br><br>**Gweithgaredd: Gadewch i ni ymchwilio:**<br><br>Opsiwn TGCh:<br>Y myfyrwyr i ddewis math o gamblo fel trysorflychau, rasys ac ati ac yna ymchwilio i'r tebygolrwydd o ennill.<br><br>Bydd y myfyrwyr yn creu cyflwyniad digidol yn seiliedig ar eu hymchwil i ddangos mai 'y Tŷ sy'n ennill bob tro'.<br><br>Opsiwn heb TGCh:<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i debygolrwydd ac ods gan ddefnyddio gweithgareddau fel taflu ceiniogau, y tebygolrwydd o liw neu siwt mewn pecyn o gardiau, y lliw nesaf i ddod allan o diwb Smarties ac ati. | **Gweithgaredd: Rydyn ni'n falch o gyflwyno...**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith i'r dosbarth ac yn cael adborth gan eu cyfoedion.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B11G2: Y Farchnad Stoc: Arian a Dyled

**Her:** A ddylai chwarae'r farchnad stoc gael ei ystyried yn gamblo? Sut mae'n cymharu â mathau eraill o gamblo?

## Amcanion Dysgu:

- Deall beth yw'r farchnad stoc a sut mae'n gweithio.
- Deall y gwahaniaeth rhwng buddsoddi a gamblo.
- Gwerthuso'r gwahanol fathau o gamblo.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall beth yw'r farchnad stoc a sut mae'n gweithio.
- Rydw i'n deall ystyr buddsoddiad.
- Rydw i'n gallu cymharu'r farchnad stoc â mathau eraill o gamblo.
- Rydw i'n gallu cyflwyno dadleuon i'm cyfoedion.

## Adnoddau:

- B11 G2 - PowerPoint
- B11 G2 - Taflen Adnoddau
- B11 - Taflen ddata
- Post-it neu docyn gadael
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur (dewisol)

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02, CW04, CW06, CW10, CW18, CW20-21, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B11; hon yw'r ail ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Trefnu!**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn cael cardiau i roi trefn arnyn nhw a rhaid iddyn nhw roi'r datganiadau naill ai yn y golofn gamblo - casino neu'r farchnad stoc.<br>(Gwnewch yn siŵr bod y cardiau'n cael eu torri a'u cymysgu ymlaen llaw – cadwch un copi ar gyfer yr atebion).<br><br>Trafodwch beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y farchnad stoc a mathau eraill o gamblo, er enghraifft casino.<br><br>Y dosbarth i feddwl am ddiffiniad ar y cyd ar gyfer y farchnad stoc a buddsoddi. | **Gweithgaredd: Beth am ddadl**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn cael eu rhannu'n dimau a rhaid iddyn nhw ddadlau o blaid neu yn erbyn y datganiad canlynol: 'Dylid dosbarthu marchnadoedd stoc fel math o gamblo.'<br><br>Dylai'r myfyrwyr dreulio amser yn datblygu eu dadleuon ac yn trafod sut byddan nhw'n ymateb i ddadleuon y tîm sy'n eu gwrthwynebu. | **Gweithgaredd: Tocyn gadael**<br><br>Mae'r myfyrwyr yn ysgrifennu eu safbwynt ar farchnadoedd stoc fel math o gamblo.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl



YGAM resources

# B11G2: ADNODD

| Y farchnad stoc | Gamblo, er enghraifft casino |
|---|---|
| Astudio ymddygiad<br>Rydych chi'n astudio patrymau mewn siartiau stoc i ragweld pris stoc yn y dyfodol. Mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth ac mae ar gael yn rhwydd ar-lein. | Astudio ymddygiad<br>Rydych chi'n astudio ymddygiad a phatrymau, yn ogystal ag ymddygiad a phatrymau eich gwrthwynebwyr. Mae hyn yn dylanwadu ar eich strategaeth betio. |
| Risg<br>Mae'r risg rydych chi'n ei chymryd yn caniatáu i chi gael mwy o arian o bosib. Mae siawns o golli bob amser. | Risg<br>Mae'r risg rydych chi'n ei chymryd yn caniatáu i chi gael mwy o arian o bosib. Mae siawns o golli bob amser. |
| Colledion<br>Bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled. Efallai y byddwch yn colli rhywfaint o arian, ond gallwch dynnu'n ôl os byddwch yn dechrau colli arian. | Colledion<br>Mae yna rywun yn ennill a rhywun yn colli bob amser. Mae'n debygol y byddwch yn colli mwy nag y byddwch yn ei ennill. Allwch chi ddim tynnu'n ôl. |
| Ble mae eich arian yn mynd<br>Efallai y bydd eich arian yn helpu i gefnogi cwmnïau i ddatblygu cynnyrch newydd. Gall eich arian effeithio'n uniongyrchol ar yr economi. | Ble mae eich arian yn mynd<br>Mae eich arian yn cael ei drosglwyddo i berson gwahanol. |
| Effaith<br>Gall colli gael effaith enfawr ar eich sefyllfa ariannol ac felly ar eich lles a lles y bobl o'ch cwmpas. | Effaith<br>Gall colli gael effaith enfawr ar eich sefyllfa ariannol ac felly ar eich lles a lles y bobl o'ch cwmpas. |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B11G3: Pam fod pobl yn gamblo

**Her:** Paratowch lawlyfr gyda gwybodaeth am sefydliadau sy'n delio ag atal niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo a sefydliadau eraill sy'n helpu'r rheini sydd eisoes yn gaeth i gamblo. Defnyddiwch luniau a ffotograffau i gyfleu eich neges.

## Amcanion Dysgu:

- Nodi sefydliadau sy'n delio ag atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a chwarae gemau.
- Nodi sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd eisoes yn gaeth i gamblo.
- Creu adnodd cefnogi ar gyfer pobl ifanc.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu disgrifio'r dangosyddion allweddol sy'n awgrymu y gallai gamblo neu chwarae gemau fod yn achosi niwed.
- Rydw i'n gallu nodi sefydliadau sy'n atal niwed sy'n gysylltiedig â gemau neu gamblo.
- Rydw i'n gallu nodi sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd eisoes yn gaeth i gamblo.
- Rydw i'n gallu creu adnodd cefnogi ar gyfer pobl ifanc a'i gyflwyno i'm cyfoedion.

## Adnoddau:

- B11 G3 - PowerPoint
- B11 - Taflen ddata
- Beiro a phapur
- Deunyddiau crefft
- Post-its
- Cyfrifiadur (dewisol)

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-04, CW08-10, CW14-18, CW20, CW22, CW25, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B11; hon yw'r drydedd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Rho bump i mi!**<br><br>Mae'r athro yn tynnu llun llaw ar y bwrdd ac mae'r myfyrwyr yn tynnu llun o'u llaw eu hunain.<br><br>Y myfyrwyr i ysgrifennu pum arwydd neu ymddygiad sy'n dangos niwed sy'n gysylltiedig â gamblo neu chwarae gemau, er enghraifft, encilio'n gymdeithasol, problemau â dyledion ac ati. Dylid cael un syniad ar gyfer pob bys.<br><br>Yr athro i dderbyn amrywiaeth o ymatebion. | **Gweithgaredd: Gadewch i ni greu!**<br><br>Caiff myfyrwyr eu rhannu'n grwpiau a rhaid iddyn nhw baratoi llawlyfr gyda gwybodaeth fel arwyddion o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo neu chwarae gemau, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n delio ag atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a chwarae gemau.<br><br>Gall y daflen ddata sy'n cael ei darparu helpu gyda'r dasg hon os nad oes modd cael mynediad at TGCh a gall myfyrwyr ddefnyddio ffotograffau neu ddarluniau. | **Gweithgaredd: Trydar**<br><br>Ar nodyn post-it, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu trydariad yn hysbysebu un o'r sefydliadau maen nhw wedi ymchwilio iddyn nhw. Yna, byddan nhw'n yn dod â'u Trydariad i flaen y dosbarth ac yn ei roi ar y bwrdd.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

# B11G4: Caethiwed ac Iechyd Meddwl

**Her:** 6.4 Diffiniwch beth yw caethiwed, yn ôl llyfr gwaith Gwybodaeth YGAM. Pam y gallai person ifanc ddatblygu ymddygiad caethiwus sy'n gysylltiedig â gamblo? Sut mae'n effeithio ar wahanol agweddau ar iechyd? Ymchwiliwch i'r meysydd hyn a chanfod astudiaeth achos i gefnogi eich canfyddiadau. **Ewch ati i greu Podlediad neu adnodd i rannu eich canfyddiadau.**

## Amcanion Dysgu:

- Adnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Deall beth mae caethiwed yn ei olygu
- Nodi sut gall caethiwed effeithio ar bobl ac ar wahanol agweddau ar eu bywyd
- Deall achos ac effaith
- Gwybod ble i gael help

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu adnabod yr arwyddion o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Rydw i'n gallu nodi sut gall caethiwed effeithio ar bobl ac ar wahanol agweddau ar eu bywyd
- Rydw i'n deall achos ac effaith
- Rydw i'n gwybod ble i gael help os ydw i'n poeni am fy mherthynas i neu berthynas rhywun arall â gamblo.

## Adnoddau:

- B11 G4 - PowerPoint
- Adnodd B11 G4: Achos ac Effaith
- Adnodd B11 G4: Gweithgaredd Trefnu
- Stori Joe: https://www.timeshighereducation.com/student/blogs/gambling-addiction-i-blew-80-cent-my-student-loan-and-overdraft#survey-answer
- Stori Sam https://samstarsmore.wordpress.com/2019/04/18/inside-the-mind-of-a-gambling-addict/
- Erthygl GamCare https://www.gamcare.org.uk/gambling-impacts/how-can-gambling-affect-your-life/?cn-reloaded=1
- Beiros a phapur
- Cyfrifiadur (dewisol)

**Sylwer:** Efallai y byddwch yn dymuno dewis astudiaethau achos eraill ar gyfer eich lleoliad. Awgrymiadau yn unig yw'r uchod. Fe'ch cynghorir hefyd i wirio'r print a'r hysbysebion adeg eu lawrlwytho i sicrhau bod cynnwys, gan gynnwys hysbysebion, yn briodol.

**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

CW01-06, CW08-11, CW15-18, CW20, CW22, CW24-25, CW27, CW29, CW33

**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan Gynllun Gwaith B11; hon yw'r bedwaredd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Achos ac effaith**<br><br>Beth mae caethiwed yn ei olygu?<br><br>Trafodaeth dau funud. Yn dibynnu ar yr ymatebion, gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am gamblo. Sut mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo/caethiwed yn wahanol i niwed arall, er enghraifft alcohol, cyffuriau anghyfreithlon, tybaco, ac ati. Ydyn nhw'n gallu ei weld?<br><br>Coeden achos ac effaith:<br><br>Athro: rhowch goeden achos ac effaith i'r myfyrwyr. (B11G4 Adnodd 1: Achos ac Effaith) Myfyrwyr i feddwl am yr hyn sy'n achosi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a beth allai'r effaith fod.<br><br>**Rhannwch eich syniadau â'r dysgwr drws nesaf i chi.** | **Gweithgaredd: Gamblo - Iechyd a Lles**<br><br>**Gweithgaredd 1:** Meddwl, Paru, Rhannu: B11G4 Adnodd 2. Cyfatebwch y rhesymau pam fod pobl ifanc yn gamblo â'r canlyniadau a roddwyd yn arolwg gamblo 2019.<br><br>**Gweithgaredd 2:** Opsiwn 1: defnyddio TG/Rhyngrwyd Opsiynau 2: defnyddio'r dolenni: Stori Joe/Stori Sam/erthygl GamCare.<br><br>Ymchwiliwch i'r rhesymau pam fod pobl ifanc yn gamblo a'r effaith ar eu hiechyd a'u lles. Mewn grwpiau bach, defnyddiwch y deunyddiau i helpu i greu podlediad neu adnodd addysgol. | **Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno**<br><br>Y myfyrwyr i rannu gwaith.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

## B11G4: ADNODD



Ysgrifennwch yr achos(ion) wrth ymyl boncyff y goeden a’r effeithiau ar y dail.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

## B11G4: ADNODD 2

| | |
|---|---|
| Am ei fod yn hwyl | Rhywbeth i'w wneud |
| I ennill arian | I gael gwefr |
| Rydw i'n hoffi cymryd risgiau | Rydw i'n debygol o ennill arian |
| Mae'n cŵl | Mae fy rhieni/gwarcheidwaid yn ei wneud |
| Byddaf yn ennill mwy nag y byddaf yn ei golli | Mae'n fy helpu pan fydda i'n teimlo'n isel neu mewn hwyliau drwg |
| Mae fy ffrindiau yn gwneud hynny | Mae fy mrodyr/chwiorydd yn gwneud hynny |
| Achlysur | Ddim yn gwybod |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

| | |
|---|---|
| **10%** | **31%** |
| **11%** | **31%** |
| **12%** | **19%** |
| **6%** | **13%** |
| **6%** | **7%** |
| **6%** | **4%** |
| **55%** | **8%** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| | |
|---|---|
| **Am ei fod yn hwyl 55%** | **Rhywbeth i'w wneud 31%** |
| **I ennill arian 31%** | **I gael gwefr 19%** |
| **Rydw i'n hoffi cymryd risgiau 13%** | **Rydw i'n debygol o ennill arian 12%** |
| **Mae'n cŵl 11%** | **Mae fy rhieni/gwarcheidwaid yn ei wneud 10%** |
| **Byddaf yn ennill mwy nag y byddaf yn ei golli 7%** | **Mae'n fy helpu pan fydda i'n teimlo'n isel neu mewn hwyliau drwg 6%** |
| **Mae fy ffrindiau yn gwneud hynny 6%** | **Mae fy mrodyr/chwiorydd yn gwneud hynny 6%** |
| **Achlysur 4%** | **Ddim yn gwybod 8%** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

**Her:** Archwiliwch y pwnc marchnata a hysbysebu gamblo: faint sy'n ormod?

## Amcanion Dysgu:

- Nodi'r gwahanol fathau o hysbysebion a sut mae cwmnïau'n marchnata eu cynnyrch
- Archwilio amlder a mathau o farchnata, gan werthuso'r effaith
- Defnyddio gwybodaeth i greu cyflwyniad

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu nodi gwahanol ffyrdd y caiff gamblo ei farchnata.
- Rydw i'n gallu trafod sut gall gwahanol fathau o farchnata ddylanwadu ar bobl
- Rydw i'n gallu trafod a gwerthuso swmp yr hysbysebu a rhannu fy syniadau
- Rydw i'n gallu cyflwyno fy syniadau a'm dadleuon i'm cyfoedion.

## Adnoddau:

- B11 G5 - PowerPoint
- B11 G5 - Adnoddau – enghreifftiau marchnata
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur (dewisol)

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04-05, CW08-10, CW14-18, CW21, CW24, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B11; hon yw'r bumed ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| **Gweithgaredd: 60 eiliad o sgriblo** | **Gweithgaredd: Y Diwydiant Gamblo - marchnata** | **Gweithgaredd: Post-it** |
|---|---|---|
| Y myfyrwyr i ysgrifennu'r holl wahanol ffyrdd y mae gamblo'n cael ei farchnata. Yr athro i dderbyn amrywiaeth o atebion gan y myfyrwyr.<br><br>**Trafodaeth dosbarth:**<br>• Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo'r cynnyrch?<br>• Ydych chi'n gweld llawer o hysbysebion? Sut mae'n gwneud i chi deimlo?<br>• Sut mae hysbysebion am gamblo yn cael eu hystyried yn eich cymuned?<br>• Ydy hysbysebion gamblo yn normaleiddio'r gweithgaredd? | Trafodwch yr wybodaeth ar y sleid mewn perthynas â hysbysebion.<br><br>Ffynhonnell: https://www.ipsos.com/sites/default/files/ct/publication/documents/2020-03/gambling-marketing-advertising-effect-young-people-final-report.pdf<br><br>Mewn parau neu grwpiau bach, bydd y myfyrwyr yn ymateb i'r ystadegau.<br><br>**OPSIWN 1:**<br>Dylai'r myfyrwyr ystyried faint sy'n ormod. Dylen nhw edrych ar y mathau o hysbysebion, y llefydd maen nhw'n eu gweld, os ydyn nhw'n cael eu gweld gan bobl ifanc ac ati. Dylid ystyried y trothwy gwylio teuluol hefyd.<br>**OPSIWN 2:**<br>Dadl: Dylid cyfyngu hysbysebion gamblo i ar ôl y trothwy. Cytuno/Anghytuno<br><br>**Gweithgaredd: Rydyn ni'n falch o gyflwyno...**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith i'w cyfoedion ac yn cael adborth ganddyn nhw. | **Tocyn GADAEL** Myfyrwyr: Ar nodyn post-it-ysgrifennwch sut mae hysbysebion gamblo yn effeithio arnoch chi'n bersonol.<br><br>Athro: mae modd casglu hwn yn ddienw a darllen yr atebion yn y sesiwn hon neu mewn sesiwn yn y dyfodol. Neu gallai myfyrwyr ddarllen eu hatebion.<br><br>**Gwaith cartref:**<br>Y myfyrwyr i gadw cofnod o sawl math o farchnata maen nhw'n eu gweld ar gyfer gamblo a chwarae gemau dros gyfnod o wythnos.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff. Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

**Her:** Ewch ati i greu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o niwed posibl gamblo a chael gwared ar y stigma.

## Amcanion Dysgu:

- Deall risgiau posibl gamblo
- Deall sut mae pobl eraill yn gweld gamblo
- Gallu datblygu ymgyrch a rhannu eich syniadau'n barchus ac ystyried safbwynt pobl eraill

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall risgiau posibl gamblo
- Rydw i'n deall sut mae pobl eraill yn gweld gamblo
- Rydw i'n gallu gweithio mewn tîm i greu ymgyrch ymwybyddiaeth
- Rydw i'n gallu meddwl yn feirniadol ac ystyried gwahanol safbwyntiau
- Rydw i'n gallu datblygu fy meddyliau a'u cyflwyno i'm cyfoedion
- Rydw i'n gallu gwrando ar bobl eraill ac ymateb yn barchus

## Adnoddau:

- B11 G6 - PowerPoint
- Beiro a phapur
- Cyfrifiadur (dewisol)
- Taflen ddata

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04-05, CW08-10, CW14-22, CW24-25, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Bydd gofyn i'r myfyrwyr fod wedi cymryd rhan yn yr holl sesiynau blaenorol sy'n ymwneud â Chynllun Gwaith B11 ar gyfer y wers hon. Bydd angen iddyn nhw feddu ar**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

**ddealltwriaeth a dysgu priodol er mwyn iddyn nhw gael cyfle i gasglu eu gwybodaeth a'u sgiliau at ei gilydd. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Meddwl, Paru, Rhannu**<br>**Cwestiwn:**<br>**Oes yna stigma ynglŷn â gamblo a rhywun sy'n dioddef niwed?**<br>Myfyrwyr i wneud y canlynol:<br>• Archwiliwch o'ch safbwynt eich hun.<br>• Archwiliwch o safbwynt y gymuned, a yw'n wahanol o un gymuned i'r llall?<br>• Sut mae credoau crefyddol a diwylliannol yn effeithio ar hyn?<br><br>Ceisiwch annog myfyrwyr i archwilio o safbwynt pobl eraill, gan ystyried cymunedau, crefydd a diwylliant yn ogystal â sut gall profiadau blaenorol fod yn sail i safbwynt rhywun.<br><br>Gwnewch yn siŵr bod y myfyrwyr yn nodi pob math o gamblo, o fetio'n breifat ar gemau cyfrifiadur, cardiau, gyda darnau arian ac ati, hyd at bethau fel tombola, loterïau a gwefannau a chynnyrch gamblo ar-lein a ffisegol. | **Gweithgaredd: Ymgyrch.**<br><br>Dylai myfyrwyr ddylunio a chynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o niwed posibl gamblo gyda'r bwriad o gael gwared ar stigma. Bydd gofyn iddyn nhw ddefnyddio gwybodaeth o sesiynau blaenorol; gallech ganiatáu amser i ddefnyddio TGCh i gefnogi eu gwaith ymhellach. Efallai y bydd defnyddio'r daflen ddata o fudd iddyn nhw hefyd.<br><br>**Gweithgaredd: Cyflwyno eich ymgyrch:**<br><br>Myfyrwyr i gyflwyno eu hymgyrch. Yn dibynnu ar yr amser sydd gennych chi, efallai y byddwch yn dymuno cyflwyno hyn dros ddwy sesiwn. | **Gweithgaredd: Tocyn gadael**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu un peth allweddol y byddan nhw'n ei gofio o'r wers heddiw neu o'r gyfres o wersi. Caiff y myfyrwyr rannu eu syniadau â'r dosbarth.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl